

2014 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5
(Cilfan i'r dwyrain o Lanfair
Pwllgwyngyll, Ynys Môn)
(Gwahardd Cerbydau) 2014

Gwnaed

30 Medi 2014

Yn dod i rym

2 Hydref 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain i Gaerdybi (yr A5) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), (2)(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrd 1984(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Hydref 2014. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cilfan i'r dwyrain o Lanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau) 2014.

2. Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan Heddlu Gogledd Cymru.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd i mewn i gilfan y gefnffordd a leolir i'r dwyrain o Lanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn sy'n ymestyn o bwynt 32 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol y ffordd fynediad i Eglwys y Santes Fair hyd at bwynt 50 o fetrau i'r dwyrain o'r llinell ganol honno.

2014 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A5 Trunk Road (Lay-by east of
Llanfairpwllgwyngyll, Isle of
Anglesey) (Prohibition of Vehicles)
Order 2014

Made

30 September 2014

Coming into force

2 October 2014

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A5 (London to Holyhead) Trunk Road (hereinafter referred to as "the trunk road") in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and 2(2) to the Road Traffic Regulation Act 1984(1) (hereinafter referred to as "the 1984 Act"), and after consultation with the Chief Officer of North Wales Police, make this Order.

Title, Interpretation and Commencement

1. This Order comes into force on 2 October 2014. The title to this Order is the A5 Trunk Road (Lay-by east of Llanfairpwllgwyngyll, Isle of Anglesey) (Prohibition of Vehicles) Order 2014.

2. In this Order —

"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means any vehicle being used by North Wales Police.

Prohibition

3. No person shall cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to enter the trunk road lay-by situated east of Llanfairpwllgwyngyll, Isle of Anglesey which extends from a point 32 metres east of the centre-line of the access road to St Mary's Church to a point 50 metres east of the said centre-line.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.



R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Dyddiedig 30 Medi 2014.

(1) 1984 c.27; amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Signed under authority of the Minister for Economy, Science and Transport, one of the Welsh Ministers.



R MORGAN
Head of Asset Management and Standards
Welsh Government

Dated the 30 September 2014.

(1) 1984 c.27; Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (CILFAN I'R DWYRAIN O LANFAIR PWLLGWYNGYLL, YNYS MÔN) (GWAHARDD CERBYDAU) 2014

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrd 1984 sy'n dod i rym ar 2 Hydref 2014.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd pob cerbyd, ac eithrio cerbydau sy'n cael eu defnyddio gan Heddlu Gogledd Cymru, rhag mynd i mewn i'r gilfan a leolir i'r dwyrain o Lanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn sy'n ymestyn o bwynt 32 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol y ffordd fynediad i Eglwys y Santes Fair hyd at bwynt 50 o fetrau i'r dwyrain o'r llinell ganol honno.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 30 Medi 2014 ymlaen, gellir archwilio copi o'r Gorchymyn, ynghyd â phlan, yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH a Chyngor Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW, neu gellir ei gael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Os bydd unrhyw berson yn dymuno cwestiynu diliysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth o'i fewn, ar y seiliau:

- a. nad yw'r Gorchymyn o fewn pwerau Deddf Rheoli Traffig Ffyrd 1984; neu
- b. bod ei fuddiannau wedi'u rhagfarnu'n sylweddol drwy fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 30 Medi 2014, wneud cais i'r Uchel Lys i atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-deddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchymynion Traffig Parhaol', '2014').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmyonion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

m d Burnell

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A5 TRUNK ROAD (LAY-BY EAST OF LLANFAIRPWLLGWYNGYLL, ISLE OF ANGLESEY) (PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2014

The Welsh Ministers have made an Order under Sections 1(1), 2(1) and 2(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984 which comes into force on 2 October 2014.

The effect of the Order is to prohibit all vehicles, other than vehicles being used by North Wales Police, from entering the lay-by situated east of Llanfairpwllgwyngyll, Isle of Anglesey which extends from a point 32 metres east of the centre-line of the access road to St Mary's Church to a point 50' metres east of the said centre-line.

During a period of 6 weeks from 30 September 2014, a copy of the Order, together with a plan, may be inspected free of charge during normal working hours at Gwynedd Council, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH and Isle of Anglesey Council, Council Offices, Llangefni LL77 7TW or may be obtained free of charge from the address below.

If any person wishes to question the validity of the Order, or of any provisions contained therein on the grounds:

- a. that it is not within the powers of the Road Traffic Regulation Act 1984; or
- b. that his/her interests have been prejudiced substantially by a failure to comply with any of the requirements of the Act,

that person may, within 6 weeks of 30 September 2014, apply to the High Court for suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

A copy of the Order and Notice can be viewed at www.wales.gov.uk (select 'Legislation', 'Subordinate legislation', 'Local Statutory Instruments', 'Permanent Traffic Orders', '2014').

A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

m d Burnell

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

THE A5 TRUNK ROAD (LAY-BY EAST OF
LLANFAIRPWLLGWYNGYLL, ISLE OF
ANGLESEY) (PROHIBITION OF VEHICLES)
ORDER 2014

